| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Cabinet |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 6 Mehefin 2017 |
| Swyddog Arweiniol: | Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| Awdur yr Adroddiad: | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| Teitl: | Adroddiad Ariannol (Alldro Ariannol 2016/17) |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r Cabinet wedi bod yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd drwy'r flwyddyn ariannol ynglŷn â pherfformiad gwariant yn erbyn y gyllideb a'r arbedion y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd drafft cyntaf y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016/17 yn cael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol erbyn 30 Mehefin. Yna bydd y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I roi gwybod am y sefyllfa refeniw derfynol a chymeradwyo'r dull arfaethedig o drin balansau.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir Aelodau'r Cabinet:

i) I nodi'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2016/17
ii) I gymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd a balansau wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3.
iii) I nodi manylion y trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a nodwyd yn Atodiad 4.

**4. Manylion yr adroddiad**

Manylir ar y ffigurau Alldro Refeniw yn Atodiad 1, ynghyd â'r driniaeth arfaethedig o falansau gwasanaeth diwedd blwyddyn. Mae'r sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys ysgolion) yn orwariant o £2.626m (1.4% o gyllideb refeniw net). Mae'r prif feysydd i'w nodi wedi'u cofnodi isod:

**Ysgolion –** Fel y nodwyd drwy gydol y flwyddyn ariannol diwethaf, mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd i gyllid ysgolion oherwydd pwysau chwyddiannol uwch na'r arfer, a'r sefyllfa alldro o £2.626 miliwn gan gynnwys gorwariant o gyllidebau dirprwyedig yr ysgol o £2.618 miliwn. Er bod ysgolion wedi derbyn amddiffyniad o 1.85% (£1.173m) maent hefyd wedi gorfod canfod arbedion effeithlonrwydd i ariannu pwysau chwyddiannol o tua £2.5m. Mae balansau ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dangos balans diffyg net o £1.056m (nodwyd £0.973 miliwn ym mis Chwefror – gostyngiad o £2.618m ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2015/16 o £1.562miliwn).

Mae ysgolion yn parhau i weithio’n agos gyda chydweithwyr Cyllid Addysg ar gynlluniau ariannol manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd a thros y ddwy flynedd ganlynol i ddarparu cyllidebau cytbwys yn yr hirdymor. Ar hyn o bryd mae 26 ysgol gyda balansau diffygiol, ac mae pob un sy’n parhau i weithio’n agos gyda chydweithwyr cyllid i ddatblygu cynllun gweithredu a gytunir. Mae pwysau chwyddiannol ar gyfer 2017/18 yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm buddsoddiad o £2.1 miliwn, a gobeithir y bydd y sefyllfa ariannol ar gyfer y mwyafrif o ysgolion yn cael eu cyfuno yn ystod 2017/18. Mae balansau ysgolion unigol wedi’u nodi yn Atodiad 3.

**Gwasanaethau Cymunedol –** bydd pwysau chwyddiannol fel gweithredu’r Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC) statudol yn parhau i gynyddu ffioedd cartrefi gofal. Fel y rhagwelwyd, mae’r pwysau yn 16/17 wedi ei gynnwys o fewn y cyllidebau cyfredol a thrwy’r defnydd o gronfeydd wrth gefn. Defnyddiodd Gwasanaethau Cymorth Cymunedol cronfeydd wrth gefn o £0.386m yn 2015/16 mewn ymateb i bwysau o’r fath, ac mae wedi gorfod galw am £1.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn 2016/17. Mae’r pwysau hyn wedi cael eu hystyried fel rhan o’r broses gyllideb 2017/18, a chytunwyd ar fuddsoddiad yn uwch na chwyddiant o £0.750 miliwn ac wedi’i gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae’r Adran Gyllid yn gweithio ar hyn o bryd gyda’r gwasanaeth i ddiwygio'r dull o ddelio ag incwm gohiriedig gan gleientiaid a all arwain at fwy o incwm yn cael ei adnabod yn y cyfrifon yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mater cyfrifo technegol yw hwn ac nid yw'n effeithio ar y cyfanswm sy’n ddyledus gan y cleientiaid.

**Addysg a Gwasanaethau Plant -** bydd y gorwariant o fewn Gwasanaethau Plant o £0.569m yn cael ei osod yn erbyn y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn 2016/17, ond mae’n debygol y bydd y pwysau hwn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys nifer o gyllidebau a arweinir gan y galw ac sydd felly’n anwadal, fel lleoliadau plant. Mae cronfeydd wrth gefn wedi’u sefydlu i helpu i reoli gwahaniaethau blynyddol, ond maent yn parhau yn feysydd risg yn 17/18 a thu hwnt.

**Gwasanaethau’r Amgylchedd a Phriffyrdd –** mae’r gwasanaeth wedi gorwario £0.297m, fodd bynnag mae £0.330m o hwn yn berthnasol i Gludiant i Ysgolion**.** Mae’r pwysau hyn wedi ei nodi drwy’r flwyddyn ac mae pwysau o £0.300m wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2017/18. Fodd bynnag, bydd y maes hwn yn parhau i gael ei fonitro’n ofalus.

Mae Atodiad 4 yn rhoi manylion y trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn llawn. Mae'r rhan fwyaf o'r symudiadau wedi eu cyllidebu ar gyfer neu wedi cael eu cymeradwyo mewn adroddiadau monitro blaenorol i'r cabinet, fodd bynnag, dylai'r trafodion ar ddiwedd y flwyddyn ganlynol gael eu nodi ac maent yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo:

- Fel y nodwyd ym mis Chwefror, gobeithir bod y tanwariant sydd dros ben o fewn Cyllidebau Corfforaethol megis galw ar gyllideb Cynllun Gostwng Treth y Cyngor, yn ogystal ag unrhyw gynnydd mewn argaeledd arian oherwydd effeithlonrwydd casglu Treth y Cyngor, ei ddefnyddio i ad-dalu’n rhannol y cronfeydd wrth gefn sy'n ofynnol i gyllido'r pwysau sylweddol mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant. Gellir cadarnhau bod y sefyllfa alldro yn ystyried ail-fuddsoddiad £0.500 miliwn yng Nghronfa wrth Gefn Lleoliadau Plant Arbenigol a £0.928m ail-fuddsoddiad yng Nghronfa Wrth

Gefn Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Gobeithir bod y buddsoddiad hwn yn darparu'r gwasanaethau gyda sefydlogrwydd ariannol am flwyddyn ychwanegol ac mae'r Cabinet yn cefnogi hyn.
- Mae tanwariant o fewn cyllidebau Ysgolion heb eu Diprwyo yn dod i £0.154m wedi ei roi mewn cronfa wrth gefn i helpu i adeiladu gwydnwch ariannol o fewn ysgolion.

Mae'r sefyllfa ar y cynnyrch o Dreth y Cyngor yn cael ei heffeithio gan nifer yr anheddau yn y Sir a'r gyfradd gasglu. Mae'r cyngor wedi cynnal lefel gymharol uchel o gasglu treth o 97.73% (97.6% y llynedd). Yn ogystal, roedd ôl-ddyledion Treth y Cyngor a gasglwyd yn ystod y flwyddyn o 43.02% yn uwch na'r targed a osodwyd ar gyfer 2016/17 (38.7%). Roedd dulliau o gyfrifo darpariaethau dyledion drwg hefyd yn arwain at lai o gostau'n cael eu talu gan y cyfrif cyllid.  O ganlyniad, mae'r sefyllfa ariannu net terfynol yn £422k (0.9%) yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol ac felly mae gan y Cyngor un budd. Argymhellir bod hyn yn cael ei ddefnyddio i gyllido gorwariant gwasanaeth ac felly yn helpu i hwyluso ail fuddsoddi cronfeydd wrth gefn gofal cymdeithasol.

O ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn gwasanaethau ac argaeledd cyllid corfforaethol, cynigir bod y gwasanaethau yn dwyn ymlaen y tanwariant net a restrir fel Balansau Gwasanaeth Ymrwymedig yn **Atodiad 1** er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth cyllideb 2017/18 a bodloni ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes. Mewn cynigion adroddiadau blaenorol ar gyfer defnydd o danwariant gwasanaeth wedi'u cynnwys ffigyrau terfynol i ddod yn £204k, mae cynigion ychwanegol £209k wedi’u cyflwyno ac angen cymeradwyaeth ffurfiol. **Mae Atodiad 2** yn crynhoi'r cynigion gwasanaeth**.**

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2016/17 yn £185m. Roedd y sefyllfa derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaeth yn orwariant net o £2.626m (1.4% o gyllideb net). Gan ystyried cyllid, roedd yr amrywiant ar gyfanswm y gyllideb yn £2.204m. Lle mae gwasanaethau wedi tynnu sylw at ymrwymiadau gwariant dilys yn erbyn balansau 2016/17, cynigir bod y gwasanaethau hynny yn trosglwyddo'r balans net ymlaen i 2017/18. Bydd y sefyllfa o fewn pob gwasanaeth a'r defnydd a fwriedir o falansau gwasanaeth a ddygwyd ymlaen yn cael ei adolygu yn ystod 2016/17.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?**

Cynhaliwyd Asesiad o Effaith llawn ar gyfer yr holl gynigion cyllidebol perthnasol oedd wedi’u cynnwys yng Nghyllideb 2016/17. Caiff yr Asesiad o Effaith ar Les newydd ei gwblhau’n unigol ar gyfer pob cynnig am arbedion cyllidebol sy’n rhan o gyllidebau’r dyfodol, er y rhagwelir na fydd angen asesiadau unigol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi cael ei hystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyfarfodydd briffio’r Cabinet a briffio’r Cyngor.  Cafodd cynigion

penodol eu hadolygu gan bwyllgorau archwilio a bu ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y gyllideb. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd a chynhaliwyd trafodaethau penodol gyda'r Heddlu. Hysbyswyd yr holl aelodau o staff am y broses o osod y gyllideb ac ymgynghorwyd yn llawn â staff sy'n cael eu heffeithio neu bwriedir gwneud hynny, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur trwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni arbedion cyllideb refeniw o £3.6m yn ystod 2016/17 a oedd yn 70% o'r lefel cyllidebol o arbedion, a rhagwelir 25% o arbedion (£1.3m) yn cael eu gwneud yn ystod 2017/18.

Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu'r prif feysydd allweddol ar gyfer 2017/18, ac mae cynlluniau mewn lle i helpu i reoli'r pwysau hynny megis buddsoddiad a thwf mewn gofal cymdeithasol, cludiant i'r ysgol ac ysgolion ynghyd ag ail-fuddsoddi doeth mewn cronfeydd wrth gefn allweddol i helpu i adeiladu gwydnwch ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi parhau i gyllido'r Cynllun Corfforaethol ac wedi rhoi £1miliwn ychwanegol yn y Cronfa Wrth Gefn Lliniaru Cyllideb yn unol â'r strategaeth cyllideb a gytunwyd er mwyn helpu i lyfnhau'r effaith o ostyngiadau cyllideb yn y dyfodol.

Mae cofnod y Cyngor o gyflawni wrth nodi a chyflawni arbedion wrth reoli cronfeydd wrth gefn effeithiol yn cryfhau'r hyder y bydd y cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol wrth ddarparu buddsoddiad yn y Cynllun Corfforaethol yn ystod yr hinsawdd ariannu anodd a ragwelir yn ystod y blynyddoedd i ddod.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.